

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Robert John, Eilir ac Arthur a gweddill y teulu, yn dilyn marwolaeth eu mam, Mrs Sydney Ann Taylor (Llansannan) ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag Elen Owen (Cefn Berain) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei mam, Mrs Susan Hughes. Gweddiwn y caiff y ddau deulu adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Parhawn i gofio hefyd am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Mae Bob Davies (Llanfair) a Morfudd Williams (Henllan) yn parhau i gael gofal yn Ysbytai Llandudno a Glan Clwyd. Treuliodd Gretta Edwards (Groes) noson yn yr ysbyty ychydig cyn y Nadolig hefyd. Anfonwn ein cofion at y tri gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Gwenfyl Jones (Llansannan) sydd wedi symud i'r Hen Ficerdy, Pandy Tudur, a Mrs Elizabeth Hughes (Llansannan) sydd bellach yng nghartref Richmond House yn y Rhyl. Dymunwn Dduw yn rhwydd i'r ddwy wrth iddynt setlo yn eu cartref newydd. Yn yr un modd, parhawn i gofio am Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen yng nghartref Yr Hen Ddeondy, Llanelwy. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn.

## Maes Llafur yr Ysgol Sul

Deallwn mai'r bwriad ar gyfer y plant o Ionawr 2014 ymlaen yw inni ddefnyddio a gorffen deunydd stori Duw, cyfres Ffydd ar Waith, neu i droi yn ôl at Golau ar y Gair, a bydd llyfrau newydd yn ymddangos ym mis Gorffennaf yn barod ar gyfer mis Medi, sef addasiad o Mosaic gan Scripture Union fydd yn para am flwyddyn.

*Dehongli'r Bregeth* yw'r maes llafur ar gyfer yr oedolion o Ionawr 2014 ymlaen, ac yna *Dehongli'r Gwyrthiau* o fis Mehefin ymlaen. Gellir archebu'r rhain o Siop Clwyd.

## I ddod

- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 31ain–Chwefror 2il.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am “Ffynhonnau”.
- **LLANW** – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yn Ninbych y Pysgod rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu, ewch i [www.llanw.org](http://www.llanw.org).

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5<sup>ain</sup> Ionawr 2014

## Darlleniad y Dydd

1 Cor. 1: 4-9

(BCND tud.181 / BCN: tud.165)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Wel, mae blwyddyn arall wedi cyrraedd unwaith eto! Ar ran Aneurin, Mair a minnau, hoffwn ddiolch o galon i bawb ohonoch am eich cefnogaeth a'ch parodrwydd i gydweithio ym mhob modd dros y flwyddyn aeth heibio, a dymunwn flwyddyn llawn bendithion i chi, eich teuluoedd a'ch cyfeillion yn 2014. Bu'n fraint i ni gael gwasanaethu yn eich plith, ac wrth i ni ddiolch i Dduw am Ei ffyddlondeb a'i ras tuag atom dros y flwyddyn aeth heibio, gweddiwn hefyd yn ddisgwylgar am arweiniad grymus yr Ysbryd Glân i'n cynorthwyo i foli'r Arglwydd a dyrchafu enw Iesu Grist yn ein holl weithgaredd eleni.

Tybed beth wnaethoch chi i nodi dechrau blwyddyn newydd? Parti a thân gwyllt efallai? Peth digon cyffredin yw cychwyn blwyddyn yn llawn gobeithion a bwriadau da. 'Dwn i ddim sawl un ohonoch wnaeth adduned blwyddyn newydd ond mae'r ystadegau'n awgrymu'n gryf mai nifer llawer llai fydd wedi llwyddo i gadw at eu haddunedau o fewn ychydig fisoedd! Yn amlach na pheidio y rheswm dros hynny yw bod gofynion a dyletswyddau bywyd bob dydd yn pwysu cymaint arnom fel nad ydym yn llwyddo i gyflawni'r hyn a ddymunwn. Mae'n ddigon tebyg mai dyna'r union reswm pam nad yw'r rhai sy'n gwrthod gwneud addunedau yn cychwyn arni ychwaith!

Er bod ein bwriadau a'n amcanion gorau yn gallu mynd i'r gwellt yn ein bywyd bob dydd, camgymeriad dybryd fyddai meddwl mai dyma'r drefn anorfod yn ein perthynas ni â Duw hefyd. Er mai pechaduriaid ydym i gyd, ac nad oes un ohonom all honni perffeithrwydd yn y byd hwn, cysur mawr ym mywyd y Cristion yw gwybod bod Duw nid yn unig yn ein cynnal, ond am ein hadeiladu'n debycach i Iesu bob cam o'r ffordd. Ni allwn ddibynnu arnom ein hunain yn y broses hon, ond gallwn ddibynnu'n llwyr ar y Duw sydd wedi'n caru cymaint nes iddo ddod yng Nghrist i ddelio â'n pechod, ac sy'n cynnig ein mabwysiadu'n blant tragwyddol iddo'i hun trwy Iesu. (Galatiaid 4:5-7).

Sylwch sut mae'r apostol Paul yn annog Cristnogion Corinth yn ein darlleniad ar y cyd heddiw. Mae'n eu hysbrydoli trwy bwysleisio mawredd a ffyddlondeb Duw. A ninnau'n cychwyn ar flwyddyn arall heb wybod yn sicr beth sydd o'n blaen, beth am ystyried am ychydig mor ffyddlon yw'n Duw, ac mor fendigedig yw'r fraint o gael bod yng nghymdeithas Iesu yn sgil ei farwolaeth ar y groes?

Cofiwn am Aneurin ar ei daith yn Mizoram dros yr wythnos a hanner nesaf hefyd. Gweddiwn am ddiogelwch ar ei daith a bendith wrth iddo ddarlithio a moli gyda theulu'r ffydd, ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes (a gweld y lluniau!) wedi iddo ddychwelyd!

## Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Cronicl 28: 6-10 (BCND tud.392 / BCN: tud.358)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Huw, Tan y Graig yn arwain, a Rhodri yn pregethu.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Pregethu Dechrau'r Flwyddyn yn Llanfair am 7.00 gyda'r Parch. Ifor ap Gwilym yn pregethu.
- Mercher Bydd Cymdeithas Llanfair yn cynnal noson "Pawb â'i Drysor" yn y Neuadd am 7.30.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn y Festri am 7.30 dan arweiniad Trebor Roberts.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.  
Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn y Festri am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Gerwyn Roberts.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Iau Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Saron am 7.00. Pregethir gan y Parch. Tom Evans Williams. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd oedfa wedi ei threfnu ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.
- Mercher Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn yn Llanefydd am 7.00 gyda'r Parch. James Clarke yn pregethu.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau